Shared Regulatory Services
Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir

Diogelwch a Safonau Bwyd

# Polisi Cydymffurfio a Gorfodi
# Atodiad 1: Gorfodi Diogelwch Bwyd

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae’r atodiad hwn yn ategu Polisi Cydymffurfio a Gorfodi’r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir wrth sefydlu ymagwedd gyson at orfodi cyfraith diogelwch bwyd.

1.2 Mae'r atodiad hwn yn berthnasol i'r holl gamau gorfodi a gymerir gan Swyddogion o dan ddeddfwriaeth diogelwch bwyd a rhaid ei ddarllen ar y cyd â'r Polisi Cydymffurfio a Gorfodi cyffredinol.

1.3 Pan fydd unrhyw wrthdaro o ran dehongli rhwng yr atodiad hwn a’r Polisi Cydymffurfio a Gorfodi cyffredinol, bydd yr un olaf yn cymryd blaenoriaeth.

## 2. Y Prif Awdurdod

2.1 Mae’n rhaid i'r holl swyddogion sy’n ystyried ymyrraeth wirio a yw busnes wedi’i gofrestru i fod mewn partneriaeth Prif Awdurdod, boed yn ei enw ei hun neu’n rhannol fel rhan o bartneriaeth gydlynol trwy drefniant masnachfraint neu gymdeithas fasnachol. Mae'r Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynnyrch (OPSS) (rhan o'r Adran Busnes a Masnach) yn cydlynu cynllun yr Awdurdod Sylfaenol, gan gynnwys cymeradwyo a chofrestru pob partneriaeth Prif Awdurdod. Pan fydd Prif Awdurdod wedi’i gofrestru, mae’n rhaid i unrhyw Awdurdod Lleol (a adwaenir fel “awdurdod gorfodi” at ddibenion y cynllun) sy’n cynnig cymryd camau gorfodi yn erbyn busnes o fewn y cynllun, gysylltu â’r Prif Awdurdod yn gyntaf heblaw bod angen gweithredu ar unwaith. Gall y Prif Awdurdod herio camau gorfodi arfaethedig os bydd yn credu ei fod yn anghyson â chyngor neu arweiniad y mae wedi'i drefnu o'r blaen. Bydd OPSS yn penderfynu ar unrhyw anghydfodau sy'n deillio o hynny.

2.2 Ystyr “Prif Awdurdod” yw awdurdod sydd wedi mynd i mewn i gytundeb ffurfiol, mewn perthynas â'r rheolaethau deddfwriaethol penodol, i fod yn brif ffynhonnell cyngor ar gydymffurfio â’r gofynion hyn ac i gydlynu camau gorfodi.

# 3. Ystyriaethau ychwanegol ar gyfer llongau ac awyrennau

3.1 Mae'r atodiad hwn yn cynnwys gorfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd berthnasol mewn perthynas ag unrhyw long neu awyren wrth iddynt ddod o fewn y diffiniad o safle ar gyfer Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw Atodlen 4 i'r Rheoliadau hyn sy'n nodi gofynion rheoli tymheredd penodol, yn rhinwedd paragraff 1b), yn gymwys i'r dulliau cludo hyn. Yn ogystal, bydd Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 ond yn berthnasol os bydd llong wedi'i gofrestru fel busnes bwyd gan Awdurdod Bwyd yng Nghymru ac nid yw'n bodloni'r meini prawf er mwyn ei eithrio.

3.2 Ar gyfer awyren neu long a gofrestrwyd o fewn y DU, caiff gwiriad ei wneud gan y Swyddog Awdurdodedig er mwyn pennu a oes cytundeb gan yr Awdurdod Cartref ar waith ac os yw hyn yn wir bydd yn cysylltu â'r Awdurdod Cartref i roi gwybod am unrhyw droseddau a nodwyd a thrafod y posibilrwydd o unrhyw gamau gorfodi a gynigir yn unol â chanllawiau'r CLlL (heblaw bod gofyn am fesurau argyfwng.)

3.3 Ar gyfer awyren neu long a gofrestrwyd dramor, dylai'r Swyddog Awdurdodedig gysylltu â Swyddfa DU y cwmni, neu'r asiant trin a thrafod os caiff Hysbysiad Gwella Hylendid neu Hysbysiad Gwahardd Brys Ar Sail Hylendid ei gyflwyno. O ran llongau, dylai'r Swyddog awdurdodedig gysylltu ag Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (AMGG) cyn gynted ag y bo modd. Pan nad oes unrhyw swyddfa neu asiant trin a thrafod o'r fath yn y DU, dylid rhoi gwybod i'r awdurdod cymwys yn y wlad lle y cofrestrwyd y llong neu'r awyren o'r namau y daethpwyd o hyd iddynt.

3.4 Os yw'r llong neu'r awyren wedi'i chofrestru gydag Aelod-wladwriaeth arall, caiff y gweithdrefnau a restrir ym Mhennod 2.5 "Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) – Ebrill 2014" eu dilyn. Dylid trafod unrhyw anawsterau gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

3.5 Os yw'r llong neu'r awyren wedi'i chofrestru mewn trydedd wlad, dylid rhoi manylion llawn i'r Asiantaeth Safonau Bwyd er mwyn caniatáu i'r mater gael ei godi gyda'r awdurdodau cymwys yn y gwledydd perthnasol.

# 4. Diffiniadau

4.1 At ddibenion yr atodiad hwn, ystyr "Swyddog Awdurdodedig" fydd Swyddog sydd â'r pwerau dirprwyedig perthnasol i weithredu dan Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972, Deddf Diogelwch Bwyd 1990, Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, Rheoliadau Rheoli Porthiant a Bwyd Swyddogol (Cymru) 2009, Rheoliadau Masnachu Anifeiliaid a Rheoliadau Perthynol (Cymru) 2011, Deddf Sgôr Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 a'r rheoliadau a gyhoeddwyd oddi tanynt ac sydd wedi'i awdurdodi gan Bennaeth Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

4.2 At ddibenion yr atodiad hwn, ystyr "Awdurdodau Partner" fydd yr awdurdodau lleol canlynol sy'n cydweithio i ddarparu Gwasanaethau Rheoliadol A Rennir:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg

# 5. Cymryd Camau Gorfodi

5.1 Mae adran 8.4 o Bolisi Cydymffurfio a Gorfodi'r GRhR yn ymwneud â phenderfyniadau ar gamau gorfodi ac yn ystyried yr amrywiaeth eang o opsiynau gorfodi sydd ar gael i'r Gwasanaeth. Diben yr adran hon yw pennu'r opsiynau gorfodi ychwanegol sydd ar gael sy'n benodol i weinyddu cyfraith bwyd.

5.2 Os bydd tystiolaeth bod gweithredwr busnes bwyd yn methu cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd, caiff y camau gweithredu canlynol eu hystyried a'r rhai mwyaf priodol eu dewis a'u gweithredu yn unol â'r dogfennau gweithdrefnol perthnasol, arweiniad ymarfer a'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Rheoliadau Rheoli Porthiant a Bwyd Swyddogol (Cymru) 2007:

- Cydymffurfio, cyngor a chymorth
- Hysbysiadau Cosb Benodedig
- Hysbysiadau Statudol
- Cau gwirfoddol
- Cipio a chadw bwyd
- Rhybudd Syml
- Erlyn
- Gwneud cais am orchymyn gwahardd hylendid

Rhestrir y rhain yn fanwl o adran 6 isod.

5.3 Wrth benderfynu ar y math o gamau gorfodi i'w cymryd, mae'n rhaid i swyddogion awdurdodedig ystyried natur y tor-amod a hanes cydymffurfio â'r gweithredwr busnes bwyd. Oni bai bod amgylchiadau'n dangos risg sylweddol, bydd swyddogion yn gweithredu ymagwedd raddedig ac addysgol gan symud i gamau gweithredu mwy ffurfiol lle nad yw camau gweithredu anffurfiol yn cael yr effaith ddymunol. Yn achos busnesau newydd, gwneir asesiad o barodrwydd gweithredwr busnes bwyd i ymgymryd â'r gwaith a nodir gan y swyddog.

5.4 Er mwyn sicrhau cydymffurfio mewn sefydliadau bwyd a redir gan un o awdurdodau partner y GRhR, neu pan fydd gan un o'r awdurdodau partner ddiddordeb, bydd y Gwasanaeth a Rennir yn ymgymryd â'i ddyletswyddau gorfodi yn yr un ffordd yn union ag y mae mewn adeiladau eraill. At hynny, bydd yn sicrhau bod y sylw a dderbynnir yn unol â'r meini prawf a gymhwysir ar ddeiliaid dyletswydd eraill.

5.5 Caiff y weithdrefn ganlynol ei mabwysiadu pan fydd Awdurdod partner yn berchennog busnes bwyd:

5.5.1 Bydd swyddogion diogelwch bwyd awdurdodedig yn archwilio adeiladau pan fydd Awdurdod partner yn berchennog yn unol â chynllun sgorio risgiau y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd sy'n pennu amlder yr archwiliadau. Yn dilyn yr archwiliad, caiff adroddiad archwilio sy'n dangos troseddau statudol ac argymhellion ei gyflwyno i'r Rheolwr Gweithredol a/neu'r Cyfarwyddwr perthnasol, e.e. Gwasanaethau Arlwyo

5.5.2 Bydd y swyddog archwilio yn gwneud gwaith dilynol ar yr adroddiad er mwyn sicrhau yr ymgymerir ag unrhyw welliannau sydd eu hangen fel y byddai'n wir ar gyfer unrhyw fusnes bwyd arall; ac argymell camau gorfodi lle y bo'n briodol.

Os digwydd y methir â mynd i'r afael â'r troseddau a nodir o fewn cyfnod amser rhesymol caiff y mater ei uwchgyfeirio a'i dynnu at sylw Swyddog Cleient priodol yr Awdurdod partner.

# 6. Cydymffurfio, cyngor a chymorth

6.1 Mae adrannau 6 o Bolisi Cydymffurfio a Gorfodi'r GRhR yn ymwneud â rhoi cyngor ac arweiniad i fusnesau fel ffordd o sicrhau cydymffurfio.

6.2 Yn benodol mewn cysylltiad â gweinyddu cyfraith bwyd, gallai camau anffurfiol gynnwys cynnig cyngor, dosbarthu rhybuddion geiriol a gofynion am gamau gweithredu drwy ddefnyddio llythyrau anffurfiol ac adroddiadau ar archwiliadau hylendid bwyd.

6.3 Cafodd yr amgylchiadau canlynol eu nodi fel rhai priodol ar gyfer defnyddio camau anffurfiol er mwyn sicrhau cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth ar ddiogelwch bwyd neu arfer da o fewn cyfnod amser rhesymol:

- Amgylchiadau lle na fydd canlyniad peidio â chydymffurfio â'r drosedd a nodwyd yn golygu risg sylweddol i iechyd y cyhoedd.
- Gweithredoedd neu hepgoriadau nad ydynt yn ddigon difrifol i fod angen camau ffurfiol.
- O hanes gweithredwr y busnes bwyd a/neu barodrwydd i ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen, mae'n rhesymol disgwyl y bydd camau anffurfiol yn arwain at gydymffurfiaeth.
- Mae hyder o ran rheoli'r busnes yn uchel.
- Tor-amodau cychwynnol nad ydynt yn achosi risg sydd ar ddigwydd i iechyd y cyhoedd ac sy'n gymwys i fusnes bwyd sy'n gysylltiedig â sefydliadau gwirfoddol sy'n defnyddio gwirfoddolwyr.

6.4 Caiff pob achos ei asesu ar ei rinweddau ac os bydd angen mewn ymgynghoriad â swyddog uwch, Rheolwr Tîm neu Reolwr Gweithredol pan fydd gofyn am arweiniad neu gyngor.

6.5 Caiff llythyr ei anfon at weithredwr y busnes bwyd ar bob achlysur a bydd hyn yn gwahaniaethu'n glir rhwng gofynion cyfreithiol a materion a argymhellir fel arfer da.

## 7. Hysbysiadau Cosb Benodedig

7.1 Mae Adran 9.4.2 o Bolisi Cydymffurfio a Gorfodi trosfwaol y GRhR yn ystyried defnyddio hysbysiadau cosb benodedig

7.2 O ran gorfodi cyfraith fwyd, mae gan swyddog awdurdodedig y disgresiwn i gyflwyno hysbysiad cosb benodedig am drosedd dan adran 9 Deddf Sgoriau Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 yn ymwneud ag arddangos, neu methu ag arddangos y sgôr cynllun sgorio Hylendid Bwyd priodol. Yn ogystal, gellir cyflwyno hysbysiad cosb benodedig am drosedd o dan Reoliad 5 Rheoliadau Sgoriau Hylendid Bwyd (Hyrwyddo Sgoriau Hylendid Bwyd)(Cymru) 2016 o ran methu cydymffurfio â'r gofynion i hyrwyddo sgoriau ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd.

Gellir rhoi y rhain pan na fydd unrhyw esgus rhesymol dros beidio â chydymffurfio.

# 8. Hysbysiadau Statudol

8.1 Polisi Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yw defnyddio hysbysiadau statudol fel opsiwn i sicrhau cydymffurfio â deddfwriaeth. Bydd camau o'r fath yn cynnwys cyhoeddi'r hysbysiadau canlynol o dan Reoliadau Rheoleiddio Hylendid Bwyd (Cymru) 2006: Hysbysiadau Gwella Hylendid o dan Reoliad 6, Hysbysiadau Gwahardd Hylendid a Hysbysiadau Gwahardd Argyfwng Hylendid o dan Reoliadau 7 ac 8 a Hysbysiadau Camau Adfer a Hysbysiadau Cadw o dan Reoliad 9.

8.2 ***Hysbysiadau Gwella***

8.2.1 Caiff Hysbysiadau Gwella Hylendid/Safonau Bwyd eu defnyddio i sicrhau cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd, o fewn amserlen resymol o dan amgylchiadau pan fydd y swyddog awdurdodedig yn fodlon yr aed yn groes i ddeddfwriaeth diogelwch bwyd ond nid yw'r drosedd yn golygu risg i iechyd ar unwaith. Mae'n bosibl y bydd yr amgylchiadau hynny yn cynnwys

- Wedi ystyried y risg i iechyd y cyhoedd, lle y gallai'r canlyniadau olygu risg bosibl i iechyd y cyhoedd; neu
- Pan fydd troseddau sylweddol yn erbyn deddfwriaeth iechyd bwyd; neu
- Pan fydd diffyg hyder yng ngweithredwr y busnes bwyd i ymateb i ddull anffurfiol; neu
- Pan fydd cofnod o beidio â chydymffurfio yn dilyn defnydd dull anffurfiol; neu
- Pan fydd safonau'n gyffredinol wael heb lawer o ymwybyddiaeth ar ran y rheolwyr o ofynion statudol neu
- Pan fydd trosedd yn ddigon difrifol bod angen erlyniad

8.2.2 Cafodd yr amgylchiadau canlynol eu nodi fel rhai amhriodol ar gyfer defnyddio Hysbysiadau Gwella Hylendid/Safonau Bwyd:

- gall y drosedd fod yn un barhaus a byddai hysbysiad ond yn sicrhau gwelliant ar un adeg mewn amser, er enghraifft, glendid personol staff
- nid yw'r drosedd yn achosi unrhyw risg i iechyd y cyhoedd;
- Mewn sefyllfaoedd dros dro, pan fydd troseddau'n bodoli sy'n golygu risg ddifrifol i iechyd y cyhoedd a lle credir bod angen camau gorfodi cyflym;
- Byddai'n fwy priodol ac er budd iechyd y cyhoedd i ddefnyddio dull anffurfiol;
- Pan fydd trosedd o ran ymarfer hylendid da ond dim methiant i gydymffurfio â rheoliad priodol.

8.2.3 Caiff Hysbysiadau Gwella Hylendid/Safonau Bwyd eu cyflwyno gan swyddogion awdurdodedig yn unig. Ni chaiff swyddog awdurdodedig lofnodi Hysbysiad Gwella Hylendid/Safonau Bwyd oni bai bod y troseddau wedi cael eu gweld ac y bodlonwyd y meini prawf perthnasol a nodir yn y Rheoliadau a'r Canllaw Ymarfer.

8.2.4 Caiff yr holl Hysbysiadau Gwella Hylendid/Safonau Bwyd eu cyflwyno yn unol â'r Cod Ymarfer perthnasol.

8.2.5 Cyflwynir Hysbysiadau Gwella Hylendid Unigol gyda nifer addas o atodlenni ynghlwm oni bai bod y swyddog awdurdodedig yn fodlon:

- Ei bod yn debygol y bydd apêl yn erbyn un neu fwy o'r eitemau sy'n gynwysedig yn yr atodlen, a fydd o bosibl yn gohirio'r hysbysiad cyfan; neu
- Bod cyfyngiadau amser ar wahân yn fwy priodol ar gyfer yr eitemau gwahanol sy'n gynwysedig yn yr atodlen; neu
- Yn y fath amgylchiadau caiff nifer addas o hysbysiadau ar wahân gydag atodlenni unigol ynghlwm eu cyflwyno.

8.2.6 Mae'n rhaid i swyddogion awdurdodedig roi terfynau amser realistig ar hysbysiadau, gan ystyried y gwaith a gaiff ei nodi ac argaeledd atebion priodol, yn ddelfrydol ar ôl trafodaethau gyda gweithredwr y busnes bwyd. Beth bynnag, mae'n rhaid rhoi cyfnod o 14 diwrnod o leiaf.

8.2.7 Mae methu cydymffurfio â Hysbysiad Gwella Hylendid yn drosedd a fydd yn gyffredinol yn arwain at argymhelliad i gychwyn achos Llys. Felly mae'n rhaid i swyddogion awdurdodedig fod â digon o dystiolaeth ar gael i gyfiawnhau eu mater, bod yn barod i fynd ar ôl diffyg cydymffurfio yn y Llysoedd a bod yn fodlon bod achosion yn debygol o fod yn llwyddiannus. Mae'n rhaid i'r rhai sy'n derbyn Hysbysiadau Gwella Hylendid gael gwybod am eu hawl i apelio a sut a ble i wneud apêl.

8.2.8 Caiff ceisiadau am estyniad amser ond eu hystyried os cânt eu gwneud yn ysgrifenedig a chaiff y rhai sy'n derbyn hysbysiadau wybod am y polisi hwn ar yr adeg y cânt eu cyflwyno.

8.2.9 Cyn ystyried unrhyw gamau gorfodi, os bydd yn briodol caiff y mater ei drafod gydag unrhyw awdurdod Sylfaenol, Cartref neu wreiddiol perthnasol.

8.2.10 Bydd y Gwasanaeth yn rhoi gwybod i gyrff gorfodi priodol a phartïon perthnasol eraill â diddordeb o'i gamau gweithredu ac yn rhoi cyngor sy'n amlinellu camau adfer sydd eu hangen er mwyn cydymffurfio.

8.3 ***Hysbysiadau Camau Adfer***

8.3.1 Mae Hysbysiad Camau Adfer yn hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i'r gweithredwr bwyd perthnasol neu i gynrychiolydd y gweithredwr a awdurdodir yn briodol sy'n:

- Gwahardd defnyddio unrhyw offer neu unrhyw ran o'r sefydliad a nodir yn yr hysbysiad;
- Rhoi amodau ar neu'n gwahardd cyflawni unrhyw broses; neu
- Yn gofyn i weithrediad y busnes bwyd gael ei stopio yn gyfan gwbl neu gael ei leihau i'r fath raddau fel y nodir yn yr hysbysiad.

8.3.2 Hefyd, bydd y swyddog yn ystyried a ddylid cadw bwyd yn y sefydliad at ddibenion archwilio trwy Hysbysiad Cadw.

8.3.3 Mae amgylchiadau a allai arwain at gyflwyno Hysbysiad Camau Adfer mewn perthynas â sefydliad yn cynnwys:

- Methiant unrhyw offer neu ran o sefydliad i gydymffurfio â gofynion y rheoliadau hylendid bwyd;
- Materion croeshalogi;
- Yr angen i orfodi amodau ar neu wahardd gweithredu unrhyw broses sy'n torri gofynion y rheoliadau neu lesteirio archwiliad iechyd digonol yn unol â'r rheoliadau; neu
- Pan fydd cyflymder gweithredu'r busnes yn niweidiol i'w allu i gydymffurfio â'r rheoliadau.

8.3.4 Mae'n rhaid cyflwyno unrhyw Hysbysiad Camau Adfer cyn gynted ag sy'n ymarferol ac mae'n rhaid iddo ddatgan pam mae'n cael ei gyflwyno. Os digwydd bod y swyddog awdurdodedig yn dibynnu ar unrhyw drosedd o ran gofynion y Rheoliadau Hylendid, mae'n rhaid i'r hysbysiad nodi'r drosedd a'r camau sydd eu hangen i'w hadfer.

8.3.5 Pan fydd swyddog awdurdodedig yn cyflwyno Hysbysiad Camau Adfer mewn sefydliad yn amodol ar gymeradwyo o dan Erthygl 4(2) Rheoliad 853/2004, dylai'r swyddog hefyd ystyried a ddylai bwyd yn y sefydliad gael ei gadw at ddibenion archwilio drwy Hysbysiad Cadw o dan Reoliad 9 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006. Mae amgylchiadau a allai arwain at gyflwyno Hysbysiad Cadw yn cynnwys pan fo arwyddion neu amheuon bod bwyd mewn sefydliad yn anniogel.

8.3.6 Pan fydd swyddog awdurdodedig yn fodlon y cafodd y cam adfer ei gymryd i gydymffurfio â’r Hysbysiad Camau Adfer a gyflwynwyd, mae’n rhaid iddo fe neu hi dynnu’r hysbysiad yn ôl drwy gyflwyno hysbysiad arall yn ysgrifenedig i weithredwr y busnes bwyd neu i gynrychiolydd gweithredwr y busnes bwyd a awdurdodwyd yn briodol.

8.3.7 Dylai defnydd Hysbysiadau Camau Adfer a Hysbysiadau Cadw fod yn gymesur â’r risg i iechyd y cyhoedd a lle y bydd gofyn am gamau gweithredu ar unwaith er mwyn sicrhau diogelwch bwyd.

8.3.8 Caiff yr holl Hysbysiadau Camau Adfer a Hysbysiadau Cadw eu cyflwyno yn unol â'r Cod Ymarfer perthnasol. Mae’n rhaid rhoi gwybod i dderbynnydd Hysbysiad Camau Adfer o'r hawl i apelio i Lys yr Ynadon.

8.4 ***Hysbysiadau Gwahardd Brys ar Sail Hylendid***

8.4.1 Cafodd yr amgylchiadau canlynol eu nodi fel rhai priodol ar gyfer defnyddio Hysbysiadau Gwahardd Brys ar Sail Hylendid yn dilyn nodi risg i iechyd sydd ar ddigwydd:

- Byddai canlyniadau peidio â chymryd camau pendant i amddiffyn iechyd y cyhoedd yn annerbyniol.
- Gellir dangos risg o niwed i iechyd sydd ar ddigwydd, e.e. tystiolaeth gan arbenigwyr perthnasol megis Dadansoddwr Bwyd neu Archwilydd Bwyd.
- Caiff meini prawf y canllawiau a nodir yn y Cod Ymarfer perthnasol, ynglyn â’r amodau pan fydd gwahardd y briodol, eu gwireddu.
- Nid yw gweithredwr y busnes bwyd yn fodlon cadarnhau yn ysgrifenedig unrhyw gynnig o waharddiad gwirfoddol a awgrymir.

8.4.2 Caiff Hysbysiadau Gwahardd Brys ar Sail Hylendid ond eu llofnodi a’u cyflwyno gan Swyddog Gwasanaethau Masnachol a awdurdodwyd yn briodol, a fydd yn rhoi gwybod cyn gynted ag y bo modd o’i gamau gweithredu.

8.4.3 Ni fydd Swyddog Gwasanaethau Masnachol yn llofnodi Hysbysiadau Gwahardd Brys ar Sail Hylendid oni bai y cafodd y sefyllfa ei gweld a'r meini prawf perthnasol eu bodloni.

8.4.4 Caiff yr holl Hysbysiadau Gwahardd Brys ar Sail Hylendid eu cyflwyno yn unol â’r Cod Ymarfer perthnasol. Mae’n rhaid rhoi gwybod i’r derbynnydd am yr hawl i apelio i Lys yr Ynadon.

8.4.5 Caiff Cyfreithiwr yr Awdurdod Etifeddiaeth perthnasol a’r Rheolwr Gweithredol priodol wybod ar unwaith am gyflwyno Hysbysiad Gwahardd Brys Ar Sail Hylendid.

8.4.6 Pan fydd Hysbysiad Gwahardd Brys Ar Sail Hylendid wedi'i gyflwyno, mae'n rhaid gwneud cais am Hysbysiad Gwahardd Brys ar Sail Hylendid i Lys yr Ynadon o fewn 3 diwrnod gwaith o gyflwyno'r Hysbysiad ac mae'n rhaid rhoi o leiaf un diwrnod o rybudd i'r busnes bwyd o'r bwriad i wneud hyn.

8.4.7 Mae'n rhaid cyflwyno i weithredwr y busnes bwyd a fu'n destun Hysbysiad Gwahardd Brys Ar Sail Hylendid Hysbysiad o Gais am Hysbysiad Gwahardd Brys ar Sail Hylendid o leiaf un diwrnod cyn dyddiad y cais i Lys yr Ynadon. Bydd yr hysbysiad yn rhoi manylion o amser a dyddiad y cais.

8.4.8 Mae methu cydymffurfio â Hysbysiad Gwahardd Brys Ar Sail Hylendid yn drosedd a bydd yn arwain at y mater yn cael ei atgyfeirio er mwyn ystyried erlyn.

8.4.9 Bydd yr Awdurdod yn rhoi gwybod i gyrff gorfodi eraill a phartïon â diddordeb perthnasol eraill o'i gamau gweithredu.

## 9. Cau Gwirfoddol

9.1 Caiff gweithdrefnau gwirfoddol er mwyn dileu cyflwr o risg i iechyd eu defnyddio fel dewis arall heblaw am gyflwyno Hysbysiad Gwahardd Brys Ar Sail Hylendid. Gallai'r dull hwn ddod ar ôl ysgogiad gweithredwr y busnes bwyd neu'r swyddog awdurdodedig.

9.2 Dylai gweithredwr neu reolwr y busnes bwyd a'r swyddog awdurdodedig gadarnhau unrhyw gytundeb ar gau gwirfoddol yn ysgrifenedig, gydag addewid gan weithredwr neu reolwr y busnes bwyd i beidio ag ailagor heb gymeradwyaeth o flaen llaw gan y swyddog. Dywedir wrth weithredwr y busnes bwyd, drwy gynnig cau yn wirfoddol, y collir unrhyw hawl i iawndal. Ni fydd cytundeb cau gwirfoddol yn atal ymgymryd ag achos cyfreithiol am beidio â chydymffurfio â deddfwriaeth diogelwch bwyd.

## 10. Cipio a chadw

10.1 Os, wrth archwilio bwyd, neu oherwydd gwybodaeth arall o ffynhonnell ddibynadwy, y bydd y swyddog awdurdodedig yn credu nad yw'r bwyd yn cydymffurfio â'r gofynion o ran diogelwch bwyd, caiff y swyddog gadw neu gipio'r bwyd o dan Adran 9 Deddf Diogelwch Bwyd 1990. Gall ffynonellau dibynadwy gynnwys yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy.

10.2 Mae’n bosibl y bydd cipio a chadw hefyd yn angenrheidiol ar ôl i fwyd gael ei ardystio i fod heb ei gynhyrchu, ei brosesu neu ei ddosbarthu yn unol â Rheoliad 27 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

10.3 Os bydd gan y swyddog awdurdodedig reswm da dros amau nad yw’r bwyd yn bodloni gofynion diogelwch bwyd, mae’n bosibl y cyflwynir hysbysiad cadw bwyd.

10.4 Fel arfer dylid ond gwneud penderfyniad i gadw bwyd os bydd wedi’i drafod gyda’r perchennog neu berson â chyfrifoldeb dros y bwyd ac, os bydd yn briodol, gyda’r cynhyrchydd. Pan fydd y swyddog awdurdodedig wedi cyflwyno hysbysiad cadw bwyd, caiff barn broffesiynol ei defnyddio i benderfynu a ddylid cadw bwyd yn y fan a'r lle, neu ei symud i rywle arall. Os bydd gan y swyddog unrhyw amheuon ynglyn â diogelwch neu ofal ffisegol o’r bwyd, dylai’r hysbysiad nodi lle y caiff y bwyd ei symud iddo. Bydd y swyddog yn trefnu monitro’r bwyd yn gyfnodol drwy gydol y cyfnod pan gaiff ei gadw.

10.5 Bydd y swyddog awdurdodedig yn gweithredu mor gyflym â phosibl pan fydd tystiolaeth neu wybodaeth yn dangos y gellir rhyddhau bwyd a gedwir, a beth bynnag o fewn 21 diwrnod. Caiff Hysbysiad Tynnu Hysbysiad Cadw Bwyd yn ôl ei gyflwyno.

10.6 Rhagdybir o dan gyfraith bwyd y bwriedir yr holl fwyd i’w fwyta gan fodau dynol hyd nes y profir fel arall. Wrth ystyried a ddylid cipio bwyd bydd swyddog yn ystyried a ellir trin neu brosesu’r bwyd dan sylw cyn ei fwyta ac os felly, a fyddai’r bwyd, ar ôl ei drin neu ei brosesu, yn gadarn ac yn iachus ac yn bodloni gofynion diogelwch bwyd. Mae’n bosibl y caiff bwyd a gadwyd o'r blaen gan swyddog ei gipio a bod yn destun condemnio ar ôl derbyn canfyddiadau niweidiol.

10.7 Pan fydd swyddog yn gwneud penderfyniad i gipio bwyd, caiff hysbysiad rhybudd o gondemnio bwyd ei gyflwyno ar y person â chyfrifoldeb dros y bwyd, neu’r perchennog. Bydd yr hysbysiad hwn yn rhoi rhybudd o'r bwriad i fynd â'r bwyd gerbron Ynad Heddwch a gwneud cais i’w gondemnio.

10.8 Dylid ymdrin â bwyd a gafodd ei gipio gan Ynad Heddwch cyn gynted ag sy’n resymol ymarferol, fel arfer o fewn 2 ddiwrnod. Dylid ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â bwyd darfodus iawn cyn gynted ag y bo modd. Os bydd angen, caiff y raddfa amser ei hymestyn er mwyn sicrhau bod y partïon a/neu eu cynrychiolwyr yn cael cyfle i fod yn bresennol. Fodd bynnag, ni bydd oedi o ran gweithredu os na ellir dod o hyd i'r perchennog neu gysylltu ag ef.

10.9 **Ymdrin â Sypiau, Lotiau a Llwythi**

10.9.1 Mae angen ystyried y penderfyniad i gipio neu gadw swp, lot neu lwyth yn ofalus cyn cyflwyno hysbysiad. Bydd y swyddog awdurdodedig yn defnyddio barn broffesiynol a chyngor arbenigol os bydd angen, i benderfynu a ddylid cadw neu gipio y swp, lot neu'r llwyth i gyd, neu ran ohono. Bydd y swyddog awdurdodedig yn ystyried:

- Y dystiolaeth sydd ar gael;
- Natur yr halogiad;
- Natur a chyflwr y cynhwysydd sy’n dal y bwyd;
- Y risg i iechyd;
- Maint y bwyd dan sylw mewn perthynas ag unrhyw samplu sydd wedi cael ei wneud.

## 11. Iawndal

11.1 Os digwydd bod hysbysiad cadw yn cael ei dynnu yn ôl neu os bydd yr Ynad Heddwch yn methu condemnio bwyd a gipiwyd, bydd y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn ystyried iawndal i’r perchennog am unrhyw ddibrisiant yn ei werth sy’n deillio o’r camau a gymerwyd gan y swyddog awdurdodedig.

## 12. Ildio’n Wirfoddol

12.1 Gellir defnyddio gweithdrefnau gwirfoddol i waredu bwyd nad yw'n addas i'w fwyta gan fodau dynol o'r gadwyn fwyd; naill ai trwy anogaeth perchennog y bwyd neu ar ôl awgrym gan y swyddog awdurdodedig pan fydd perchennog y bwyd yn cytuno nad yw'n addas i'w fwyta gan bobl.

12.2 Dylid rhoi derbynneb am fwyd a gaiff ei ildio’n wirfoddol i’r Awdurdod ei ddinistrio. Dylai’r dderbynneb ddangos bod y bwyd wedi’i ildio’n wirfoddol i Wasanaethau Rheoliadol a Rennir i’w ddinistrio a dylid ei lofnodi a’i gydlofnodi gan y swyddog awdurdodedig a’r person sy’n ildio’r bwyd yn y drefn honno.

## 13. Dinistrio a Gwaredu

13.1 Caiff Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, drwy gytundeb, godi ar berchennog y bwyd am ddinistrio a gwaredu bwydydd a chânt eu hildio'n wirfoddol.

13.2 Fel arfer bydd Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn gwneud cais i Ynad Heddwch am gostau sy’n gysylltiedig â dinistrio a gwaredu bwyd a gaiff ei gipio.

13.3 Os yw bwyd i gael ei waredu, bydd Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn gwneud pob ymdrech i sicrhau y gwneir hyn mewn modd addas a bod dim posibilrwydd o fwyd yn dychwelyd i'r gadwyn fwyd.

## 14. Rhybudd Syml

14.1 Gweler adran 9.4.4 Polisi Cydymffurfio a Gorfodi'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

## 15. Erlyn

15.1 Gweler Adran 9.4.5 o Bolisi Cydymffurfio a Gorfodi'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

## 16. Gorchymyn Gwahardd ar Sail Hylendid

16.1 Os caiff gweithredwr busnes bwyd ei euogfarnu o drosedd o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ac mae'r Llys yn fodlon bod yr amod ar risg iechyd wedi'i gyflawni o ran y busnes bwyd dan sylw, mae gan y Llys y pŵer i orfodi Gorchymyn Gwahardd ar sail Hylendid yn erbyn y gwaharddiad priodol, o dan Reoliad 7 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

16.2 Yn dilyn erlyniad llwyddiannus, mae gan y Llys y pŵer i osod y gwaharddiad priodol os ydynt yn fodlon bod risg o anaf i iechyd fel y'i diffinnir yn Rheoliad 7 (2) a (3) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006. Mae'n ofynnol i'r Llys osod Gorchymyn Gwahardd Hylendid priodol a allai fod yn ymwneud â gwahardd proses neu driniaeth, neu ddefnyddio safle neu offer at ddibenion busnes bwyd.

16.3 Yn dilyn erlyniad llwyddiannus yn erbyn gweithredwr busnes bwyd busnes bwyd gall y Llys, yn rhinwedd Rheoliad 7 (4) Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, orfodi Gorchymyn Gwahardd ar sail Hylendid ar weithredwr y busnes bwyd sy'n cymryd rhan yn rheoli unrhyw fusnes bwyd, neu unrhyw fusnes bwyd o ddosbarth neu ddisgrifiad a nodir yn y gorchymyn.

16.4 Cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl gwneud y Gorchymyn Gwahardd ar sail Hylendid, bydd y swyddog awdurdodedig yn cyflwyno copi o'r Gorchymyn Gwahardd ar sail Hylendid ar weithredwr busnes bwyd y busnes ac yn achos Gorchymyn Gwahardd ar sail Hylendid a gyflwynir o dan Reoliad 7(1) Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, yn rhoi copi o'r gorchymyn mewn safle amlwg ar yr adeilad.

16.5 Mae methu cydymffurfio â Gorchymyn Gwahardd ar sail Hylendid yn drosedd a bydd yn arwain ar gael ei anfon ymlaen gyda'r bwriad o erlyn.

16.6 Rhoddir gwybod i gyrff eraill sydd â diddordeb, gan gynnwys yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Sefydliad Siartredig Iechyd Yr Amgylchedd am gyflwyno Gorchymyn Gwahardd ar sail Hylendid a gyflwynir dan Reoliad 7(4) Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

# 17. Rheolaethau Glanweithdra ar Longau

17.1 Arolygu Glanweithdra ar Longau

Bydd gofyn i Feistr/Gweithredwr llong a fu, yn ystod ei thaith, mewn porthladd tramor, gyflwyno tystysgrif glanweithdra ar longau ddilys pan fydd swyddog awdurdodedig yn dod ar fwrdd y llong. Os na all y Meistr/Gweithredwr gyflwyno tystysgrif ddilys, neu os bydd yn gwneud cais am dystysgrif newydd, caiff swyddog awdurdodedig archwilio'r llong er mwyn dosbarthu tystysgrif glanweithdra ar longau ddilys sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Iechyd Rhyngwladol.

17.2 Tystysgrif Eithrio Rheolaeth ar Lanweithdra ar Longau

Os na fydd y swyddog awdurdodedig yn dod o hyd i unrhyw dystiolaeth o risgiau i iechyd y cyhoedd neu ledaenu heintiau, caiff Tystysgrif Eithrio Rheolaeth ar Lanweithdra ar Longau ei dosbarthu. Bydd y dystysgrif hon yn ddilys am hyd at 6 mis. Bydd yr awdurdod iechyd porthladd yn codi tâl am dystysgrifau a fydd yn seiliedig ar y rhai a argymhellir gan y Gymdeithas Awdurdod Iechyd Porthladd (APHA).

17.3 Tystysgrif Rheolaeth ar Lanweithdra ar Longau

Caiff tystysgrif rheoli glanweithdra ar longau ei dosbarthu pan ganfyddir tystiolaeth o risg, gan gynnwys ffynonellau heintiau a halogi ar fwrdd y llong a phan gwblheir y mesurau rheoli gofynnol yn foddhaus. Mae’r dystysgrif yn cofnodi’r dystiolaeth y daethpwyd o hyd iddi, y mesurau rheoli a gymerwyd a'r canlyniadau. Os na ellir cwblhau’r mesurau rheoli yn y porthladd, bydd yr awdurdod yn nodi hynny ar y dystysgrif ac yn rhoi gwybod i’r porthladd nesaf am y mesurau rheoli gofynnol.

Os bydd gan y Meistr/Gweithredwr dystysgrif ddilys glanweithdra ar longau bydd y swyddog awdurdodedig yn ei diwygio i ddangos y dystiolaeth, y rheolaethau a wnaed a’r canlyniadau. Os na fydd gan y Meistr/Gweithredwr dystysgrif ddilys glanweithdra ar longau bydd y swyddog awdurdodedig yn llenwi Tystysgrif newydd Rheoli Glanweithdra ar Longau a chodir tâl yn seiliedig ar y rhai a argymhellir gan yr APHA. Bydd tystysgrif rheoli glanweithdra ar longau yn ddilys am chwe mis.

17.4 Estyniadau ar Dystysgrifau Glanweithdra ar Longau

Mae tystysgrifau glanweithdra a ddosberthir gan borthladd ac a awdurdodir gan Sefydliad Iechyd y Byd yn ddilys am hyd at 6 mis. Gall swyddog awdurdodedig ymestyn tystysgrif os na ellir cwblhau archwiliad neu'r mesurau rheoli yn y porthladd. Fodd bynnag, os bydd y llong yn golygu risg ddifrifol o ran lledaenu afiechydon, bydd yr awdurdod yn rhoi gwybod i'r porthladd nesaf fel y gellir ymgymryd â'r mesurau rheoli effeithiol yn ddi-oed.